*Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2016 No. 79

# Gorchymyn Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2016

**Darpariaethau sy'n dod i rym ar y diwrnod cymwys o ran cyforgronfeydd dŵr mawr cyn-gychwyn**

**3.**—(1) Daw paragraff 12 a pharagraffau 15 i 19 o Atodlen 4 i Ddeddf 2010 i rym ar y diwrnod cymwys mewn perthynas ag unrhyw gyforgronfa ddŵr fawr cyn-gychwyn.

(2) Mae cronfa ddŵr yn gyforgronfa ddŵr fawr cyn-gychwyn os oedd wedi ei chofrestru fel cyforgronfa ddŵr fawr o dan Reoliadau Deddf Cronfeydd Dŵr 1975 (Cofrestrau, Adroddiadau a Chofnodion) 1985(**1**) yn union cyn 1 Ebrill 2016.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraffau (4) a (5), y diwrnod cymwys mewn perthynas ag unrhyw gyforgronfa ddŵr fawr cyn-gychwyn yw pa bynnag ddyddiad yw'r cynharaf o'r canlynol—

(a) 28 o ddiwrnodau ar ôl y dyddiad y mae Corff Adnoddau Naturiol Cymru yn dynodi'r gronfa ddŵr honno yn rhinwedd hysbysiad o dan adran 2B(1) o Ddeddf 1975; a

(b) 1 Ebrill 2017.

(4) Mae paragraff (5) yn gymwys pan fo cyforgronfa ddŵr fawr cyn-gychwyn—

(a) wedi ei dynodi yn rhinwedd hysbysiad o dan adran 2B(1) o Ddeddf 1975; a

(b) mae ymgymerwr y gronfa ddŵr yn apelio yn erbyn y dynodiad o dan Reoliad 4(1) o Reoliadau Deddf Cronfeydd Dŵr 1975 (Esemptiadau, Apelau ac Arolygiadau) (Cymru) 2016(**2**).

(5) Mewn unrhyw achos pan fo paragraff (4) yn gymwys, y diwrnod cymwys yw pa bynnag ddyddiad yw'r cynharaf o'r canlynol—

(a) y dyddiad pan fydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu'r apêl yn rhinwedd rheoliad 4(2) o Reoliadau Deddf Cronfeydd Dŵr 1975 (Esemptiadau, Apelau ac Arolygiadau) (Cymru) 2016; a

(b) 1 Ebrill 2017.

(**1**) 1985/177.
(**2**) 2016/78.